



Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangloedmor a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgoldy, Llangloedmor nos Lun 9 Mai 2016

Presennol: Cadeirydd: Cyng Gareth Evans. Cyng: Mrs Amanda Edwards Cyng: Mrs Jina Hawkes, Colin Lewis, Ken Symmons, Mrs Kay Morgan, Mrs Eleri Davies, Iwan Davies, Hywel Davies

CS H Lewis

Clerc

Aelodau o'r Cyhoedd: Dim

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Roedd y Cyng B Rees a P Hazzelby wedi anfon i ymddiheuro.

2. Datgelu Buddiannau Personol

Dim.

3. Materion Personol

Dim.

4. Ceisiadau Cynllunio

Dim.

Cyngor Sir Ceredigion (CSC) – Gwybodaeth gan y Pwyllgor Cynllunio x 2 – nodwyd.

5. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cynigiodd y Cyng Mrs A Edwards, eiliwyd gan y Cyng Mrs J Hawkes a chytunwyd yn unfrydol fod cofnodion 04.04.16 yn gofnod cywir.

6. Materion yn Codi

Gofynnodd y Cyng C Lewis i'r Clerc a oedd wedi cael copïau o'r daflen hanes oddi wrtho. Cadarnhaodd hithau ei bod.

Cadarnhaodd y Cyng C Lewis fod y goleuadau stryd a'r problemau gyda'r arwyddion wedi eu cywiro gan CSC.

Gofynnwyd a allai'r cofnodion sy'n cael eu hargraffu ar gyfer y cyfarfod gynnwys syniad pa eitemau oedd wedi'u cario ymlaen i'r agenda ar gyfer y cyfarfod. Cytunodd y Clerc i roi cynnig ar system.

GWEITHREDU: Trefn arbrofol ar gyfer cofnodion y cyfarfod. GAN: Y Clerc

7. Cyllid a Gweinyddu

Taliadau Misol

| | Talai | Am | banc | |
|----------|-------------------------|---|----------|--------|
| 21.04.16 | Mrs S Houghton | Gliniadur | 461.74 | TALWYD |
| 25.04.16 | 7 Stars | Gwestai'r Cinio Blynnyddol | 19.95 | |
| 9.05.16 | Sign of the Times Ltd | Plac | 446.40 | |
| 9.05.16 | Mary Jones | Cyfieithu | 120.00 | |
| 9.05.16 | Abacus | Glanhau toiledau cyhoeddus Ebr/Mai | 340.00 | |
| 9.05.16 | Neuadd y Cwrwgl | Hurio ar 2.11.15 | 15.00 | |
| 9.05.16 | Swallow Office Supplies | Nwyddau swyddfa | 33.40 | |
| 9.05.16 | Mr R Harman | Gwacau biniau Ion/Mawrth 16 | 30.00 | |
| 9.05.16 | S E Houghton | Post | 7.80 | |
| 9.05.16 | S E Houghton | Gwahaniaeth cyflog oherwydd newid cod treth | 62.20 | |
| 9.05.16 | S E Houghton | Swyddfa Gartref | 25.00 | |
| 30.04.16 | S E Houghton | Cyflog Mai | 311.54 | AS |
| | | | 1,873.03 | |

Holodd y Cyng C Lewis beth oedd y taliad 'oherwydd newid yn y cod treth'. Cadarnhaodd y Clerc fod yr Archeb Sefydlog am ei chyflog hi yn adlewyrchu'r dreth roedd wedi bod yn ei thalu yn y flwyddyn ariannol flaenorol a bod angen ei newid i adlewyrchu ei gofynion treth cyfredol gyda HMRC. Tan y gellid ei newid, gellid talu'r gwahaniaeth â siec. Cytunwyd i newid yr archeb sefydlog.

Awgrymodd y Cyng Mrs A Edwards y gallai'r Cyngor gael cerdyn debyd yn gysylltiedig â'i gyfrif gan fod angen gwneud taliadau fel hynny'n gynyddol. Gofynnwyd a oedd cyfrif lle roedd angen dau berson i lofnodi yn gallu cynnal cerdyn. Trafodwyd ffyrdd posibl eraill o symud ymlaen.

GWEITHREDU: Holi yn y banc GAN: Y Clerc

Adnewyddu Yswiriant Blynnyddol

Darparwyd adroddiad – dyddiad adnewyddu 1 Mehefin 2016

Ar ôl trafodaeth gofynnwyd i'r Clerc gysylltu ag yswirwyr y Cyngor ynglŷn â nifer o newidiadau a chwestiynau.

GWEITHREDU: Cysylltu â'r yswirwyr GAN: Y Clerc

Rheoleiddiwr Pensiynau – roedd yn ofynnol i'r Cyngor gofrestru i gael ymrestru'n awtomatig.

Esboniodd y Clerc ei bod yn rhaid i'r Cyngor ymrestru. Nid oedd hi'n ennill digon i fod yn gymwys ar gyfer y cynllun pensiwn, ond roedd yna ddatganiadau statudol i'w gwneud neu gallai'r Cyngor gael ei ddirwyo.

GWEITHREDU: Ymrestru a gwneud datganiadau statudol yn unol â'r amserlen briodol. GAN: Y Clerc

Diwedd y flwyddyn

Roedd y Clerc wedi darparu ffigurau dros dro gan gynnwys yr adferiad banc blynnyddol, mantolen a ffigurau diwedd blwyddyn dros dro yn dangos gwahaniaethau fel %. Roedd yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu esboniad o unrhyw wahaniaeth +/- 15%. Dywedodd ei bod yn dal i ddisgwyl ymateb gan yr Archwilydd Allanol am y sefyllfa gyda'r 'Ymddiriedolaeth', ac roedd angen o hyd iddi chwilio am y gwaith papur cefnogi roedd ei angen ar yr Archwilydd Allanol eleni.

Penodi Archwilydd Mewnol:

Roedd y Cyngor wedi cael llythyron oddi wrth Mr K Griffiths a Mrs J Jamison. Ar ôl trafodaeth cytunwyd y byddai'r Cyngor yn penodi Mrs J Jamison i gynnal yr archwiliad mewnol am y flwyddyn 2015/16.

GWEITHREDU: Cysylltu â'r ddau. Trefnu archwiliad gyda Mrs J Jamison GAN: Y Clerc

Cais am roddion

Roedd Digwyddiadau Cymunedol Pentref Llechryd wedi gwneud cais i'r Cyngor am arian i helpu prynu hwyaid ar gyfer y ras hwyaid. Soniwyd bod y ras yn cael ei mwynau'n fawr a bod yr arian a godid o fudd i'r gymuned. Cynigiodd y Cyng Mrs K Morgan y dylid rhoi £250. Eiliwyd gan y Cyng Mrs J Hawkes, penderfynwyd yn unfrydol.

Eitem gyfrinachol: Credyd Talu Wrth Ennill gan HMRC

Gan nad oedd aelod o'r cyhoedd yn bresennol, trafodwyd y mater cyfrinachol gan y Cyngor.

Cod Ymddygiad

Cytunwyd yn unfrydol i fabwysiadu'r cod ymddygiad newydd. Roedd y Cynghorwyr i gyd wedi cael copi ohono.

Gwefan

Dywedodd y Clerc, gan fod y gliniadur newydd yn gweithio, y byddai hi nawr yn diweddarau'r wybodaeth ac yn ceisio datblygu'r safle ymhellach.

Contract Torri Porfa

Cytunwyd bod yr hen fynwent yn edrych yn daclus.

Cyfnod prawf y Clerc ar ben – cadarnhau'r penodiad

Cynigiodd y Cyng C Lewis, eiliodd y Cyng Mrs J Hawkes a chytunwyd yn unfrydol i gadarnhau'r Clerc yn y swydd ar ddiwedd ei chyfnod prawf o 6 mis. Byddai'r Cyng Mrs A Edmunds yn edrych ar delerau ac amodau Contract y Clerc.

GWEITHREDU: Contract ac Amodau GAN: Y Cyng Mrs A Edmunds

Cais y Clerc am gael mynd i gyd-ddigwyddiad OWW/SLCC yn Abertawe ar 22 Mehefin. Roedd CC Llandudoch wedi cytuno i dalu hanner y costau pe bae Llangoedmor yn cytuno i wneud cyfraniad cyfatebol (cyfanswm y gost £69 a theithio). Cytunwyd yn unfrydol.

8. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Ymgynghoriad CSC ar nifer o newidiadau mewn cyflymdra teithio ar yr A484

Ar ôl trafodaeth cytunwyd fod y Cyngor yn croesawu'r ffaith fod materion cyflymdra ar y ffordd yn cael sylw. Teimlid y byddai terfyn uchaf o 40mya ar y darn o ffordd yn fwy effeithiol, a byddid yn gofyn i Gyngor Sir Ceredigion roi ystyriaeth i hyn.

Byddai'r Cyngor hefyd yn gofyn i'r Cyngor Sir ystyried terfyn uchaf tebyg o 40mya ar yr A484 o Groes y Llan i Aberteifi. Ym marn y Cyngor Cymuned roedd y darn hwn o'r ffordd lawn mor beryglus.

GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

Hysbysiad gan CSC am ddiwygiadau arfaethedig yng Ngorchymyn Cadarnhau Cyngor Sir Ceredigion (mannau parcio oddi ar y stryd) 2012

Nodwyd bod Siambr Fasnach Aberteifi yn cynnal digwyddiadau i geisio cael gostyngiadau mewn taliadau parcio neu eu dileu yn y dref. Teimlid, er mwyn annog twf a chymuned fywiog, y dylai taliadau parcio fod mor isel â phosib.

GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

9. Mwynderau

Parc Ceir / Hawl Tramwy

Roedd y Cyng P Hazzelby wedi dod o hyd i wybodaeth, ond yn anffodus nid oedd wedi gallu mynd i'r cyfarfod. Roedd wedi rhoi llyfryn i'r Cyng Mrs A Edwards yn rhoi hanes y Neuadd a'r cyffiniau. Cytunwyd y dylai'r Cynghorwyr i gyd a'r Clerc gael copi (i'w ddychwelyd i'r Cyngor pe bae Cynghorwyr yn gadael am ryw reswm). Cytunwyd yn unfrydol i dalu'r gost o £150 i argraffu 15 copi.

GWEITHREDU: Cysylltu â'r argraffwyr GAN: Y Cyng Mrs A Edwards

Elusen

Dywedodd y Clerc mai'r cyngor gan Un Llais Cymru oedd bod rhaid cymryd camau ar unwaith i reoleiddio mater y Comisiwn Elusennau.

Er mwyn gwneud hyn rhaid i'r Cynghorwyr ystyried, cyn unrhyw drafodaeth, a oedd ganddynt unrhyw fuddiant personol neu ragfarnol yn y mater. Roedd Swyddog Monitro CSC wedi darparu cyngor, a byddai'r Clerc yn ei anfon o gwmpas.

Argymhelliad Un Llais Cymru oedd:

1. Cysylltu â'r Comisiwn Elusennau
2. Cysylltu â'r Archwilydd Allanol ynglŷn â'r ffordd i baratoi cyfrifon eleni (dim)
3. Dweud wrth archwiliwyd mewnol posibl am y sefyllfa (dim, gofynnwyd am gadw hyn yn gyfrinachol nes byddai'r Cynghorwyr yn gwybod beth oedd y sefyllfa)

4. Cysylltu â'r yswirwyr am nad oedd y Cyngor yn berchen y tir (gan nad yw'r Elusen mewn sefyllfa i weithredu ar hyn o bryd, byddai'n rhaid iddo barhau dan yswiriant y Cyngor)
5. Ceisio cael eglurhad pellach sut i reoli asedau (gellid cymryd bod y rheiny y gellid eu symud heb achosi niwed sylweddol yn eiddo i'r Cyngor, a gellid cymryd bod arwynebau etc y gellid eu symud heb niwed sylweddol, er bod yn Cyngor yn talu amdanynt, yn eiddo i'r Elusen)
6. Cysylltu â HMRC i adhawlio TAW ar waith etc ar dir yr elusen (gallai fod yn ofynnol i'r Cyngor ad-dalu TAW a oedd wedi'i adhawlio ar waith ar eiddo'r Elusen. Roedd HMRC i bob golwg yn trin pob achos yn ôl ei haeddiant)

Awgrymodd y Clerc, ar wahân i gynnal a chadw angenrheidiol, na ddylai'r Cyngor wneud dim gwaith yn yr ardal nes byddai'r ffordd ymlaen yn glir.

Byddai'r Clerc yn anfon allan y rhestr archwilio manau chwarae. Roedd y Cyng B Rees yn garedig iawn wedi cynnig gwneud yr archwilio wythnosol gan ei fod ar y safle'n rheolaidd, cyn belled ag y byddai rhywun yn barod i wneud yr archwilio pe bae ef yn absennol. Gan fod *archwiliad* blynyddol yn fater o ddiogelwch, roedd y Clerc wedi trefnu hyn gyda ROSPA.

Dywedodd y Clerc ei bod yn dal i fynd ar ôl ymateb ynglŷn â gosodiad y goleuadau Nadolig yn yr Eglwys.

10. Prosiectau'n parhau

SLt Lawrence / Y Gofeb Rhyfel

Ar ôl trafod penderfynwyd galw gweithgor bach ynghyd ym mis Mehefin i drafod digwyddiad i nodi gosod y placiau.

Diffibrileiddiwr

Roedd y Cyng Mrs A Edwards wedi paratoi hysbysiad addas, a chafodd ei gymeradwyo gan bawb. Byddai hi'n argraffu ac yn lamineiddio copi i'w osod mewn ffrâm wrth ymyl y diffibrileiddiwr. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn anfon o gwmpas gopi PDF o'r cyfarwyddiadau i bawb ei ddefnyddio, ond nodwyd na ddylai'r cod mynediad gael ei newid.

GWEITHREDU: Poster GAN: Y Cyng A Edwards **GWEITHREDU:** Anfon copi PDF o gwmpas o'r cyfarwyddiadau defnyddio GAN: Y Clerc

Cynllunio Mewn Argyfwng

Yn parhau

Gwyllo Cyflymder

Gofynnodd y Cyng C Lewis am gael y set ddiweddaraf o ffigurau gan CSC

GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

11. Digwyddiadau

Cinio Blynyddol – arolwg

Cytunwyd bod y cinio wedi bod yn bleserus iawn, a diolchwyd i'r Cyng Mrs A Edwards am drefnu noson ddymunol.

Marathon Lluniau

Roedd y Cyng B Rees a'r Clerc wedi bod mewn cyfarfod o'r CRhA yn yr Ysgol. Byddai'r Ysgol yn edrych ar gostau argraffu'r ffotograffau, a gallai hynny gael ei adlewyrchu yn y tâl mynediad.

Dywedodd y Cyng Mrs A Edwards mai'r dyddiad ar gyfer y digwyddiad oedd 9 Gorffennaf gydag arddangosfa o luniau yn ystod penwythnos y carnifal.

Pentref yn ei Flodau

Roedd manylion ar gyfer y blychau wedi'u llunio gan y Cyng Mrs A Edwards ac roedd hi wedi cysylltu â'r felin goed.

Byddai'r Cadeirydd yn chwilio am safleoedd posibl ar gyfer y blychau ac yn eu nodi. Gellid cysylltu â pherchnogion y tir.

GWEITHREDU: Lleoliad y blychau i gael eu harchwilio GAN: Y Cadeirydd

12. Adroddiadau cyfarfodydd

Dim

13. Gohebiaeth a negeseuon e-bost

Cyngor Tref Aberteifi

Gwahoddiad i'r Cadeirydd i fynd i Seremoni Sefydlu'r Maer ar 17 Mai am 7.30pm yn Neuadd y Dref a'r Iluniaeth wedyn yn y Castell, yna i Wasanaeth Dinesig y Maer ar 22 Mai, 2016 yng Nghapel Bethania am 2pm.

Y Cadeirydd i fynd i'r ddau ddigwyddiad.

GWEITHREDU: Cysylltu â Chyngor y Dref GAN: Y Clerc

CSC Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir am 2 p.m. DDYDD GWENER, 20 MAI.

Y Cadeirydd i fynd.

GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

Gohebiaeth wedi'i nodi:

Asesiad Chwarae a Chynllun Gweithredu Ceredigion

Gwahoddiad CSC i Weithdy Aelodau – Cyfleoedd Chwarae i Blant

Gwybodaeth gan CSC am grantiau mannau chwarae i blant

Negeseuon Cymunedol yr Heddlu

Swyddfa'r Post: Cadarnhau gwasanaethau post newydd yn y pentref

Dyfodol Ynni Craffach i Gymru - adroddiad

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru – Llythyr Newyddion Mai 16

Clerks and Council's direct

Hywel Dda – Trawsnewid gwasanaethau iechyd y meddwl

Digwyddiad adborth budd-ddeiliaid 10 Mai

15. Cyfnewid Gwybodaeth

Dywedodd y Cyng Mrs A Edwards ei bod wedi cwblhau'r arolwg o gysodfannau bws i CSC, gan fod y copi gwreiddiol i'w weld wedi'i golli ganddynt. Dywedodd nad oedd nifer o'r cysgodfannau a oedd wedi'u marcio ar y map yn bodoli, ac roedd safon y gwaith mapio yn wael iawn. Nid oedd hynny wedi helpu'r mater.

16. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 6.06.16

Os cwyd unrhyw faterion cyfrinachol, bydd y Cyngor yn gwneud y penderfyniad canlynol a gofynnir i holl aelodau'r cyhoedd a'r wasg adael y cyfarfod bryd hynny: *Penderfyniad: Oherwydd natur gyfrinachol y busnes sydd i gael ei drafod, ni chaiff y cyhoedd a'r wasg fod yn bresennol yn y cyfarfod yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, Adran 1*

CYFRINACHOL 9.05.16

HMRC TALU WRTH ENNILL

Esboniodd y Clerc fod y Cyngor wedi cael llythyr oddi wrth HMRC yn dweud bod credyd o 766.51 yn y cyfrif Talu Wrth Ennill am y flwyddyn ariannol 15/16. Mewn galwad ffôn i HMRC gwelwyd bod gan y Cyngor 179.67 o gredyd yn ychwanegol o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Credai'r Clerc fod y swm o 766.51 yn cyfateb yn fras i'r dreth a dalwyd gan Miss Quinnell, y Clerc blaenorol. Roedd yn ymddangos nad oedd gan HMRC ddim record o dalu ar-lein ar gyfer Miss Quinnell, a dyna pam roedd credyd i'w weld yn y cyfrif. Roedd gan y Cyng Mrs A Edwards brofiad o faterion PAYE, a byddai'n helpu llunio'r ffigurau angenrheidiol i wneud y mater yn rheolaidd gan nad oedd gan y Clerc brofiad o hyn. Nodwyd y gallai'r Cyngor gael ei ddirwyo am beidio â chyflwyno adroddiadau priodol, er nad oedd HMRC wedi dweud hynny ar hyn o bryd.